A oes unrhyw beth arall y gallai fod yn ddefnyddiol i ni wybod amdano?

Eich enw (dewisol):

_____

Oedran ac ysgol eich plentyn (dewisol):

_____

Diolch

Dychwelwch y bonyn hwn drwy'r post i'r cyfeiriad ar gefn y daflen hon.

Sut i gysylltu â ni:-

Joanne Colley
Gweinyddydd
Gwasanaeth Seicoleg Addysg
Tŷ Henblas
Sgwâr y Frenhines
Wrecsam LL13 8AZ

Ffôn: 01978 297518

E-bost: joanne.colley@wrexham.gov.uk

Minicom: 01978 292024

wrexham COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL wrecsam

Gwasanaethau Cefnogi Dysgu



Y Gwasanaeth Seicoleg Addysg

Gwybodaeth i Rieni ac Ysgolion

Pwy ydym ni?

Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg yn cynnwys tîm o seicolegwyr addysg sydd wedi'u hyfforddi'n broffesiynol, athro arbenigol, Cydlynydd Rhaglenni Cynorthwyo Myfyrwyr a chefnogaeth weinyddol a chlercaidd.
Y Prif Seicolegydd Addysg yw Mrs Pauline Preston.

Beth ydym ni yn ei wneud?

Mae seicoleg yn ein helpu ni a phobl eraill i ddeall sut mae plant yn datblygu a dysgu, yn ogystal â sut maent yn meddwl, teimlo ac ymddwyn.

Rydym yn defnyddio seicoleg i:

Weithio gyda phlant a phobl ifanc fel y gallant lwyddo gyda'u dysgu, yn eu hysgolion ac ochr yn ochr â'u cyfoedion;
Gweithio gydag athrawon a rhieni/gofalwyr i nodi a helpu i ddatrys problemau o ran dysgu, datblygiad neu ymddygiad y plentyn.

Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg yn darparu gwasanaethau i ysgolion ac i blant a phobl ifanc rhwng 0 – 19 oed.

Mae gan bob ysgol fynediad at seicolegydd addysg penodedig (SA) sy'n ymweld ag ysgolion yn rheolaidd. Gall rhieni ddefnyddio'r gwasanaeth drwy drafod gydag ysgol eu plentyn.

Os bydd ysgol yn pryderu ynghylch plentyn unigol, bydd staff yn gweithio gyda rhieni mewn amryw o wahanol ffyrdd er mwyn cefnogi'r disgybl. Yr enw ar hyn yw 'Gweithredu gan yr Ysgol' yng n ghyhoeddiad y Llywodraeth: 'Côd Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig yng Nghymru' a gyhoeddwyd yn 2002.

Os na chaiff pryderon ynghylch plentyn eu datrys, yna bydd yr ysgol yn gofyn a ellir cynnwys y SA yn fwy uniongyrchol gyda chytundeb y rhieni. (Yr enw ar hyn yw Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy').
Cynhelir adolygiadau cynnydd rheolaidd gyda'r rhieni a phawb arall sy'n gysylltiedig.

Sut rydym yn gweithio:

Rydym yn arfer amryw o ymagweddau:

Trafod a chasglu gwybodaeth gyda disgyblion, rhieni ac athrawon i helpu i ddatrys problemau;

Gwaith uniongyrchol gyda'r disgyblion a'u hathrawon yn yr ystafell ddosbarth;

Gweithio gydag ysgolion i ddilyn cynnydd y disgyblion neu'r grwpiau o ddisgyblion; gallai hyn gynnwys gwaith gydag unigolion, grwpiau, dosbarthiadau neu ymagweddau ysgol gyfan e.e. datblygu rhaglen ysgol i helpu gyda darllen neu i ddatrys problemau ymddygiad yn ystod amser chwarae ac amser cinio.

Eich sylwadau:

Byddem yn falch iawn o glywed gan rieni / gofalwyr ynghylch ein gwasanaeth a sut y gellir ei wella. Mae eich sylwadau yn hanfodol o ran ein helpu i ddatblygu a chynnal y gwasanaeth gorau posibl. Defnyddiwch y bonyn hwn i roi gwybod i ni beth rydych chi yn ei feddwl.

A roddwyd gwybodaeth glir i chi am y Gwasanaeth Seicoleg Addysg cyn i ni ddod yn uniongyrchol gysylltiedig yn yr ysgol?

2. Sut y gellir fod wedi gwella ar hyn?

3. Sut mae mewnbwn y seicolegydd addysg wedi bod yn ddefnyddiol?

4. Sut y gellir fod wedi gwella ar hyn?